# Cyfrifiad plant sy’n derbyn gofal a chymorth 2024-25

## Cefndir

Mae’r Cyfrifiad plant sy’n derbyn gofal a chymorth yn seiliedig ar y diffiniad o blant cymwys sy’n derbyn gofal a chymorth, h.y. plant (o dan 18 oed) sydd â chynllun gofal a chymorth.

Mae gan blant sy’n derbyn gofal gynllun gofal a chymorth, a byddant yn is-set o’r boblogaeth hon. Bydd y ffurflen hon yn cipio hefyd y plant hynny sydd â chynllun gofal a chymorth ac sydd mewn sefydliad diogel a phlant sydd â chynllun cymorth os ydynt yn darparu gofal i rywun arall.

Dylid cyflwyno data i Lywodraeth Cymru yn flynyddol, a dylai’r data adlewyrchu blwyddyn ariannol gyfan. Bydd y flwyddyn bresennol yn manylu ar y plant sy'n cael gofal a chymorth yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Cafodd y Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth ei adolygu gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn 2022. Mae’r diwygiadau’r a argymhellwyd yn yr adolygiad hwnnw wedi'u cynnwys yn y gofynion ar gyfer y ffurflen hon.

### Nodiadau Cyfarwyddyd ar gwblhau a chyflwyno

Dylid defnyddio'r ffurflen Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth 2024-25 i gofnodi data ar gyfer pob plentyn unigol sydd wedi derbyn gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn 2024-25. Mae hyn yn newid o'i gymharu â blynyddoedd casglu blaenorol.

Rhennir y casgliad yn ddwy adran. Rhaid cwblhau Adran 1, Manylion Craidd, ar gyfer pob plentyn sydd wedi cael cynllun gofal a chymorth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylid cwblhau Adran 2, Manylion Gofal a Chymorth, ar gyfer y rhai sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth 2025 yn unig.

Ar gyfer y plant hynny y daeth eu cynlluniau gofal a chymorth i ben ganol y flwyddyn, rhowch y manylion cywir ar y dyddiad y daeth y cynllun gofal a chymorth i ben.

## Gofynion data

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno data ar gyfer plant yr oedd ganddynt gynllun gofal a chymorth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gasglu (2024-25). Mae hyn yn wahanol i'r cyfrifiadau cynharach lle roedd angen cipolwg yn unig o’r plant a'r bobl ifanc hynny a oedd â chynllun gofal am dri mis neu fwy ar 31 Mawrth. Mae'r gofyniad tri mis neu fwy hefyd wedi'i ddileu. Felly, dylai'r ffurflen gynnwys unrhyw blentyn neu berson ifanc a oedd â chynllun gofal a chymorth (Rhan 4 neu

Ran 6) neu blentyn neu berson ifanc a oedd â chynllun cymorth fel gofalwr yn ystod y cyfnod casglu, waeth am ba hyd oedd gan y plentyn neu'r person ifanc gynllun.

Mae angen llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn gasglu, pa un a oes gan yr unigolyn hwnnw gynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth neu beidio.

Ar gyfer Adran 2, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno data ar gyfer plant a oedd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn gasglu yn unig (h.y. 31 Mawrth 2025). Mae rhywfaint o ddata ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth yn unig

Meysydd Gwir / Anwir: Mae nifer o feysydd yn y Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth y gellir eu hateb gyda 'gwir' neu 'anwir'. Y fformat ar gyfer y Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth yw 1 os yw'n wir, a 0 os yw'n anwir. Fodd bynnag, mae nifer o ffyrdd y gall defnyddwyr systemau gwybodaeth reoli gofnodi hyn megis blychau gwirio neu gwymplen addas. Felly bydd yn rhaid i'r swyddogaeth allforio ar gyfer unrhyw system drosi'r meysydd hyn yn unol â hynny. Os yw eitemau'n cael eu gadael yn wag, tybir fod hynny'n dangos nad oes data ar gael.

Dylid ateb cwestiynau ynglŷn ag "a oes gan" neu "a oedd gan" y plentyn neu rieni'r plentyn briodoleddau penodedig, e.e. problemau iechyd neu anabledd, gan gyfeirio at ddyddiad y cyfrifiad sef 31 Mawrth 2025 neu'r dyddiad pan ddaeth cynllun gofal a chymorth y plentyn i ben. Mae hyn yn golygu bod y briodoledd yn gyfredol yn ôl yr wybodaeth sydd ar gael ar 31 Mawrth 2025 neu ar yr adeg pan ddaeth cynllun gofal a chymorth y plentyn i ben.

Mae rhestr lawn o'r eitemau data yn Atodiad A. Mae'r nodiadau canlynol yn rhoi canllawiau manwl pellach ar gyfer adrannau penodol.

## Manylion Craidd

Bydd y cwestiynau isod yn cael eu cwblhau ar gyfer pob plentyn sydd wedi cael gofal a chymorth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol 2024-25.

### Cod awdurdod lleol

512 Ynys Môn
514 Gwynedd
516 Conwy
518 Sir Ddinbych
520 Sir y Fflint
522 Wrecsam
524 Powys
526 Ceredigion
528 Sir Benfro
530 Sir Gâr
532 Abertawe
534 Castell-nedd Port Talbot
536 Pen-y-bont ar Ogwr
538 Bro Morgannwg
540 Rhondda Cynon Taf
542 Merthyr Tudful
544 Caerffili
545 Blaenau Gwent
546 Torfaen
548 Sir Fynwy
550 Casnewydd
552 Caerdydd

### Rhif adnabod plentyn yr awdurdod lleol

Mae'n rhaid i hwn fod yn rif adnabod unigryw i bob plentyn. Rhaid cadw'r rhif hwn o flwyddyn i flwyddyn. Bydd yn cynnwys llythrennau a rhifau yn unig. Rhaid iddo fod yr un rhif adnabod ag a ddefnyddir at ddibenion eraill e.e. ffurflenni Plant sy'n derbyn gofal.

Os ydych yn bwriadu newid rhif adnabod plentyn yr awdurdod lleol, naill ai ar gyfer plentyn unigol neu grŵp o blant, bydd hyn yn atal Llywodraeth Cymru rhag gallu dadansoddi ar draws gwahanol flynyddoedd y cyfrifiad neu rhwng y Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth a'r ffurflen Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal. Oherwydd hyn, dylid trafod unrhyw gynnig i newid y rhif adnabod plant gyda Llywodraeth Cymru ar gam cynnar a chyn gwneud unrhyw newidiadau. Yr eithriad i hyn yw lle bydd rhif newydd yn cael ei neilltuo ar gyfer plentyn mabwysiedig.

## Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN)

Mae Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN) yn cael ei ddyrannu'n awtomatig i bob plentyn mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Rhif adnabod yn unig ydyw, ac fe'i defnyddir mewn cyd-destun addysgol yn ystod gyrfa ysgol plentyn ac mae'n destun cyfyngiadau Diogelu Data.

Rhaid i UPN gynnwys 13 cymeriad yn y fformat Annnnnnnnnnnn neu AnnnnnnnnnnnA (ar gyfer UPN dros dro), gyda A yn dynodi cymeriad a n yn dynodi rhif. Mae UPNs dros dro ond yn cael eu rhoi fel mesur dros dro hyd nes y ceir UPN parhaol.

Rhaid i'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech i olrhain UPN plentyn. Os na fydd plentyn wedi cael UPN gan ysgol a gynhelir, efallai y bydd wedi cael un gan Adran Addysg yr awdurdod lleol, sy'n gallu rhoi UPN i'r rhai sydd mewn darpariaeth amgen, er enghraifft. Dim ond lle mae'n amhosib darganfod Rhif Unigryw'r Disgybl y dylid gadael yr eitem hon yn wag.

Noder bod Ysgolion Meithrin a gynhelir yn dyrannu UPNs hefyd, felly efallai y bydd gan blant UPN o pan fyddant yn 2 neu 3 oed ymlaen.

## Dyddiad geni

Dylid darparu dyddiad geni gael yn y fformat DD/MM/BBBB.

Os nad yw'r union ddyddiad geni yn hysbys, cofnodwch ddyddiad geni bras yn seiliedig ar amcangyfrif o oedran y plentyn ar y dyddiad atgyfeirio.

## Cod post cartref y plentyn

Cod post y cyfeiriad diweddaraf sy'n hysbys ar gyfer y plentyn..

Nodwch god post cartref y plentyn yn y fformat canlynol e.e. CF10 4SD. Nid oes rhaid nodi'r cod post cartref ar gyfer plant sy'n derbyn gofal lle'r oedd y plentyn mewn lleoliad mabwysiadu.

## Rhywedd

Rhywedd yw sut mae'r unigolyn yn nodi ei hun, nid rhyw adeg geni. Dyma'r rhywedd olaf sy'n hysbys ar 31 Mawrth, neu pan gaewyd yr achos.

1 Gwryw
2 Benyw
3 Arall
4 Heb ei ddatgelu neu ddim yn gwybod

## Ethnigrwydd

Dylai ethnigrwydd gael ei benderfynu drwy ofyn i'r plentyn am ei hunaniaeth ethnig yn gyntaf. Os nad yw'n ddigon hen eto i ymateb, gofynnwch i'w brif ofalwr.

WHTE1 - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
WHTE2 - Roma

WHTE3 - Unrhyw gefndir Gwyn arall (yn cynnwys Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig)
MIXD1 - Gwyn a Du Caribïaidd
MIXD2 - Gwyn a Du Affricanaidd
MIXD3 - Gwyn ac Asiaidd
MIXD4 - Unrhyw gefndir cymysg / lluosog arall
ASAB1 - Indiaidd
ASAB2 - Pacistanaidd
ASAB3 - Bangladeshaidd
ASAB4 - Tsieineaidd
ASAB5 - Unrhyw gefndir Asiaidd arall
BBAC1 - Caribïaidd
BBAC2 - Affricanaidd
BBAC3 - Unrhyw gefndir Du arall
OOTH1 - Arabaidd
OOTH2 - Unrhyw grŵp ethnig arall
UNKN1- Ddim yn gwybod

## Anabledd

Dylid cofnodi a oes gan blentyn anabledd ar 31 Mawrth 2025 (neu ar gyfer achosion sydd ar gau, ar yr adeg y cafodd cynllun gofal a chymorth y plentyn ei gau). At ddibenion yr eitem ddata hon, mae'r diffiniad o anabledd yn dilyn y diffiniad yn Adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n nodi'r canlynol:

"Mae gan berson (P) anabledd os—

(a) oes gan P amhariad corfforol neu feddyliol, a
(b) bod yr amhariad yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ei allu P i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd."

Os yw 1 wedi'i nodi ar gyfer "dim", ni ddylid gwneud unrhyw gofnodion eraill yn yr adran hon. Os yw 0 wedi'i nodi ar gyfer "dim", yna ar gyfer pob un o'r mathau o anabledd a nodwyd sy'n berthnasol, nodwch 1 os oedd gan y plentyn anabledd o'r math hwn ar 31 Mawrth 2025 (neu ar gyfer achosion sydd ar gau, ar yr adeg y cafodd cynllun gofal a chymorth y plentyn ei gau).

Rhowch 0 os nad oedd gan y plentyn anabledd o'r math hwn ar 31 Mawrth 2025 (neu ar gyfer achosion sydd ar gau, ar yr adeg y cafodd cynllun gofal a chymorth y plentyn ei gau).

**Categorïau o amhariadau:**

- Golwg
- Clyw
- Corfforol (e.e. sgiliau echddygol bras, deheurwydd dwylo, neu symudedd)
- Salwch meddwl (nid dementia na chyflwr niwroddatblygiadol)

- Dementia
- Cyflwr niwroddatblygiadol
- Arall (heb ei restru)
- Dim

Gall plant fod â mwy nag un anabledd, ac os felly gellir nodi bod mwy nag un categori yn wir. Gall fod nifer fach o blant sy'n anabl, ond nad oes ganddynt unrhyw un o'r anableddau a nodwyd. Ar gyfer y plant hyn, nodwch 1 ar gyfer Arall (heb ei restru) a nodwch yr anabledd yn y blwch a ddarperir.

### Cyflyrau niwroddatblygiadol

Cofnodwch a oes gan blentyn gyflwr niwroddatblygiadol ar 31 Mawrth 2025 (neu ar gyfer achosion sydd ar gau, ar yr adeg y cafodd cynllun gofal a chymorth y plentyn ei gau).

Os yw 1 wedi'i nodi ar gyfer "dim", ni ddylid gwneud unrhyw gofnodion eraill yn yr adran hon.
Os yw 0 wedi'i nodi ar gyfer "dim", yna ar gyfer pob un o'r cyflyrau a nodwyd sy'n berthnasol, nodwch 1 os oedd gan y plentyn gyflwr o'r math hwn ar 31 Mawrth 2025 (neu ar gyfer achosion sydd ar gau, ar yr adeg y cafodd cynllun gofal a chymorth yr unigolyn ei gau).

Rhowch 0 os nad oedd gan y plentyn gyflwr o'r math hwn ar 31 Mawrth 2025 (neu ar gyfer achosion sydd ar gau, ar yr adeg y cafodd cynllun gofal a chymorth y plentyn ei gau).

- Cyflwr Sbectrwm Awtistig
- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
- Syndrom Tourette
- Anabledd dysgu
- Arall (heb ei restru)
- Dim

Gall plant fod â mwy nag un cyflwr, ac os felly gellir nodi bod mwy nag un categori yn wir. Gall fod nifer fach o blant sydd â cyflwr, ond nad oes ganddynt unrhyw un o'r cyflyrau a nodwyd. Ar gyfer y plant hyn, nodwch 1 ar gyfer Arall (heb ei restru) a nodwch y cyflwr yn y blwch a ddarperir.

Nid oes angen diagnosis ffurfiol ar gyfer yr eitem ddata hon. Dewiswch yr eitem berthnasol os cafodd y cyflwr ei nodi fel rhan o asesiad y plentyn. Naill ai drwy hunan-adnabyddiaeth neu drwy adolygiad gan y gweithiwr cymdeithasol penodedig.

### Iaith

Ar gyfer plant 3 oed a hŷn ar 31 Mawrth 2025, cofnodwch ddewis iaith y plentyn; dyma'r iaith y mae'n well gan y plentyn ei defnyddio i gyfathrebu ag eraill. Gweler Atodiad B – Rhestr Codau Iaith.

Rhowch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth 2025.

Os oes cynllun ar waith ar 31 Mawrth, cofnodwch y dewis iaith ar 31 Mawrth; os yw'r cynllun ar gau, cofnodwch y dewis iaith ar y dyddiad y daeth i ben.

## Cynllun gofal a chymorth yn weithredol ar 31 Mawrth

Rhowch 1 os oes gan y plentyn gynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth 2025
Rhowch 0 os nad oes gan y plentyn gynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth 2025

## Dyddiad dechrau'r cyfnod parhaus diweddaraf o ofal a chymorth

Nod yr eitem ddata hon yw cipio'r dyddiad y dechreuodd yr awdurdod lleol ddarparu gofal a chymorth i'r plentyn yn ystod y **cyfnod parhaus, diweddaraf o ofal a chymorth**. I lawer o blant gall y dyddiad yma fod ymhell yn y gorffennol. Efallai y cynhaliwyd adolygiadau o gynllun gofal a chymorth y plentyn drwy gydol y cyfnod hwn, ac efallai bod eu hanghenion wedi newid.

Dylid cofnodi'r dyddiad hwn fel DD/MM/BBBB.

Ar gyfer cynlluniau dros 3 oed, byddwn yn derbyn dyddiad bras.

Ar gyfer achosion sy'n trosglwyddo o awdurdod lleol arall, defnyddiwch ddyddiad y trosglwyddo.

Os nad oes dyddiad dechrau clir i'r cynllun gofal a chymorth, defnyddiwch ddyddiad cwblhau'r asesiad.

## Rheswm dros roi gofal a chymorth

Mae'r cod hwn yn dangos y prif reswm pam y **dechreuodd** plentyn dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth yn y **cyfnod diweddaraf** o ofal a chymorth. Efallai nad yw'n adlewyrchu anghenion presennol y plentyn. Ni ddylid ei adael yn wag. Cofnodwch un rheswm yn unig. I'r plant hynny y mae eu cynlluniau bellach wedi dod i ben, defnyddiwch y rheswm a gofnodwyd ar adeg yr atgyfeiriad ar gyfer y **cyfnod diweddaraf** o ofal a chymorth.

Os yw plentyn hefyd yn derbyn gofal, efallai na fyddai'r cod ar gyfer y prif reswm o reidrwydd yr un fath ag ydyw ar y Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.

Os oes gan blentyn anghenion lluosog, cofnodwch y prif gategori o angen.

Nid yw trefn y categorïau yn yr eitem hon o reidrwydd yn cyd-fynd â'r drefn pwysigrwydd.

### N1 Camdriniaeth neu esgeulustod

Plant sydd mewn angen o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod, neu mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso; mae hefyd yn cynnwys plant sydd mewn perygl oherwydd trais yn y cartref.

### N2 Anabledd neu salwch y plentyn

Plant a'u teuluoedd y mae eu prif angen am wasanaethau yn codi oherwydd anabledd, salwch, neu gyflwr cynhenid y plentyn.

**N3 Anabledd neu salwch y rhiant**

Plant y mae eu prif angen am wasanaethau'n codi oherwydd bod gallu eu rhieni (neu ofalwyr) i ofalu amdanynt wedi'i amharu gan anabledd, salwch corfforol neu feddyliol, neu gaethiwed y rhiant (neu'r gofalwr).

**N4 Teulu dan straen acíwt**

Plant y mae eu hanghenion yn codi o fyw mewn teulu sy'n mynd trwy argyfwng dros dro sy'n lleihau'r gallu rhieni i fodloni rhai o anghenion y plant yn ddigonol.

**N5 Camweithrediad teuluol**

Plant y mae eu hanghenion yn codi yn bennaf o fyw mewn teulu lle mae'r gallu i fagu plant yn eithriadol o annigonol.

**N6 Ymddygiad sy'n annerbyniol yn gymdeithasol**

Plant a theuluoedd y mae eu hangen am wasanaethau yn codi'n bennaf gan fod ymddygiad y plentyn yn effeithio'n niweidiol ar y gymuned.

**N8 Absenoldeb rhieni**

Plant y mae eu hanghenion am wasanaethau yn codi'n bennaf o fod heb rieni ar gael i ddarparu ar eu cyfer.

**N9 Tarfu ar fabwysiadu**

Y prif reswm dros ddechrau cyfnod o dderbyn gofal oedd amhariad ar drefniadau mabwysiadu.

## Dyddiad y daeth y cynllun gofal a chymorth i ben

Ar gyfer plant sydd â chynllun yn dod i ben o fewn y flwyddyn ariannol, nodwch y dyddiad y daeth y cynllun gofal a chymorth i ben, hyd yn oed os oes ganddynt gynllun yn dal i fod yn weithredol ar 31 Mawrth.

Mae cynllun yn dod i ben pan nad yw'r awdurdod lleol bellach yn darparu unrhyw ofal a chymorth i'r plentyn. Gall awdurdod lleol ddod â chynllun unigol i ben, ond nid yr achos. Peidiwch â darparu dyddiad dod i ben os yw'r plentyn yn derbyn gofal parhaus drwy'r flwyddyn casglu.

Dylid cofnodi'r dyddiad hwn fel DD/MM/BBBB

Defnyddiwch y dyddiad dod i ben diwethaf os oes mwy nag un cyfnod o ofal a chymorth (neu gymorth fel gofalwr) yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer achosion sy'n trosglwyddo i awdurdod lleol arall, defnyddiwch y dyddiad trosglwyddo.

## Rheswm dros ddod â'r cynllun gofal a chymorth i ben

I'r plant hynny y daeth eu cynllun gofal a chymorth i ben yn ystod y flwyddyn, ac y cofnodwyd hynny uchod, nodwch y rheswm mwyaf priodol dros gau'r cynllun gofal a chymorth, o'r rhestr isod:

1 – Gwasanaeth wedi'i gwblhau

2 – Trosglwyddo/symud i awdurdod lleol arall

3 – Camu i lawr i wasanaethau ataliol (nid oes angen gofal a chymorth parhaus mwyach)

4 – Trosglwyddo i ofal gwasanaethau i oedolion

5 – Cyrraedd 18 oed

6 – Wedi gwrthod gwasanaeth

7 – Wedi marw

8 – Arall

Dewiswch un categori yn unig o'r rhestr uchod. Nid oes modd ei adael yn wag ar gyfer y plant hynny sydd heb gynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth 2025.

### Statws ceisiwr lloches yn ystod y flwyddyn adrodd

Rhywun sydd wedi cyflwyno cais am amddiffyniad ar sail y Confensiwn Ffoaduriaid neu Erthygl 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac sy'n disgwyl penderfyniad ar y cais hwnnw, yw ceisiwr lloches. Cofnodwch a fu plentyn yn blentyn sy'n ceisio lloches ai peidio ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod casglu, naill ai fel plentyn ar ei ben ei hun (UASC) neu fel aelod o deulu a gydnabuwyd fel teulu a oedd â statws ceisio lloches.

Rhowch 0 os nad oedd y plentyn yn blentyn sy'n ceisio lloches yn ystod y flwyddyn adrodd
Rhowch 1 os oedd y plentyn yn blentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches ar unrhyw adeg yn y flwyddyn adrodd
Rhowch 2 os oedd y plentyn yn aelod o deulu sy'n ceisio lloches ar unrhyw adeg yn y flwyddyn adrodd

### Dyddiad ychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant

Dylid cofnodi'r dyddiad yr ychwanegwyd y plentyn at y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y fformat DD/MM/BBBB.

Os yw plentyn wedi'i ychwanegu at y gofrestr fwy nag unwaith, dylid defnyddio'r dyddiad diweddaraf.

Gadewch y maes hwn yn wag ar gyfer plant nad ydynt wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn adrodd.

### Dyddiad y tynnwyd y plentyn oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

Dylid cofnodi'r dyddiad y tynnwyd y plentyn oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y fformat DD/MM/BBBB.

Os yw plentyn wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr fwy nag unwaith, dylid defnyddio'r dyddiad diweddaraf.

Gadewch y maes hwn yn wag ar gyfer plant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth.

## Ar goll

Y diffiniad o berson ar goll yw "Ystyrir bod unrhyw un na ellir nodi ei leoliad ar goll, nes ei fod wedi'i leoli, a'i les wedi'i gadarnhau neu fel arall."

Mae'r eitem ddata hon yn cofnodi'r nifer o weithiau yr oedd plant a phobl ifanc wedi mynd ar goll yn ystod y flwyddyn gasglu.

Nodwch cyfanswm nifer yr adroddiadau a gafwyd bod y plentyn wedi mynd ar goll a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn adrodd.

Maes rhif cyfan yw hwn.

## Manylion gofal a chymorth

Dylid cwblhau’r eitemau data isod ar gyfer y plant hynny sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar **31 Mawrth 2025** yn unig.

### Plentyn sy’n Derbyn Gofal

Rhowch 1 os oedd y plentyn yn derbyn gofal ar 31 Mawrth
Rhowch 0 os nad oedd y plentyn yn derbyn gofal ar 31 Mawrth

### Cyfrifoldebau gofalu

Cofnodwch a oes gan y plentyn neu'r person ifanc gyfrifoldebau gofalu. Ystyr gofalwr yw unigolyn sy’n darparu neu’n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.

Rhowch 0 os nad oes gan y plentyn unrhyw gyfrifoldebau gofalu ar 31 Mawrth.

Rhowch 1 os oes gan y plentyn gyfrifoldebau gofalu hysbys ar 31 Mawrth **a’i fod** yn derbyn cymorth hysbys, parhaus fel gofalwr.

Rhowch 2 os oes gan y plentyn gyfrifoldebau gofalu hysbys ar 31 Mawrth **ond nad yw’n** cael cymorth neu **nid yw’n hysbys** a yw’n cael cymorth parhaus fel gofalwr.

Rhowch 88 os nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys.

Bydd unigolyn wedi cael cynnig asesiad gofalwr os oes ganddo gyfrifoldebau gofalu, p'un a yw wedi manteisio ar y cynnig o asesiad a/neu gymorth gofalwr ai peidio. Gall hyn fod ar ffurf cynllun gofal a chymorth a chynllun gofalwr deuol.

### Statws ceisiwr lloches ar 31 Mawrth

Yn ogystal â nodi a yw'r plentyn wedi bod yn blentyn sy'n ceisio lloches, cofnodwch a oedd y plentyn yn blentyn a oedd yn ceisio lloches ar 31 Mawrth, naill ai fel plentyn ar ei ben ei hun (UASC) neu fel aelod o deulu a gafodd ei gydnabod fel un oedd â statws ceisio lloches.

Rhowch 0 os nad oedd y plentyn yn blentyn a oedd yn ceisio lloches ar 31 Mawrth
Rhowch 1 os oedd y plentyn yn blentyn ar ei ben ei hun a oedd yn ceisio lloches ar 31 Mawrth
Rhowch 2 os oedd y plentyn yn aelod o deulu oedd yn ceisio lloches ar 31 Mawrth

### Cofrestr Amddiffyn Plant

Rhowch 1 os oedd y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth
Rhowch 0 os nad oedd y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth

### Categori camdriniaeth ac esgeulustod a gofnodwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

Cofnodwch y categori (neu gategorïau) o gamdriniaeth ac esgeulustod a nodwyd ar y gofrestr ar gyfer plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth.

Dylai'r categori a ddefnyddir nodi'r prif bryderon ar adeg cofrestru. Gall mwy nag un categori fod yn berthnasol.

Ar gyfer pob un o'r categorïau penodol sy'n berthnasol, nodwch 1 os oedd y categori'n bresennol ar y gofrestr. Rhowch 0 os nad oedd y categori yn bresennol ar y gofrestr.

- Esgeulustod
- Corfforol
- Rhywiol
- Ariannol
- Emosiynol/Seicolegol (yn unig)

Sylwch y byddwn yn tybio bod camdriniaeth emosiynol/seicolegol yn digwydd bob amser os bydd un o'r mathau eraill o gamdriniaeth yn digwydd. Felly, dim ond os yw'n digwydd ar wahân heb y mathau eraill o gamdriniaeth y dylid ei gofnodi. Os yw 1 yn cael ei nodi ar gyfer "emosiynol/seicolegol (yn unig)", ni ddylid gwneud unrhyw gofnodion eraill yn yr adran hon.

Os yw plentyn wedi'i ychwanegu at y gofrestr fwy nag unwaith, dylid defnyddio'r categori diweddaraf.

Gadewch y maes hwn yn wag ar gyfer plant nad ydynt ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth.

### Newidiadau i Weithiwr Dynodedig/Gweithiwr Achos

Cofnodwch sawl newid i'r gweithiwr dynodedig ar gyfer y plentyn sydd wedi digwydd yn y flwyddyn adrodd.

Mae newidiadau mewn gweithiwr dynodedig yn broblem gyffredin i blant sy'n cael gofal a chymorth. Nid oes modd osgoi newid gweithiwr dynodedig o bryd i'w gilydd, oherwydd trosiant staff. Ond weithiau bydd y newidiadau o ganlyniad i drosglwyddo gofal a chymorth plant o dimau derbyn/asesu i dimau hirdymor ac yn y blaen. Gall casglu data helpu awdurdodau lleol i ystyried a allen nhw leihau'r tarfu ar blant yn eu system. Drwy nodi newidiadau gweithwyr, byddwn yn gallu deall a yw lefelau uchel o newid yn cael unrhyw effaith ar ganlyniadau'r plentyn.

Y gweithiwr dynodedig yw pwy bynnag a nodwyd fel y gweithiwr achos h.y. y gweithiwr a enwir ar WCCIS neu system arall. Mae'r eitem ddata hon yn ymwneud â chasglu data am yr adegau y symudodd cyfrifoldeb neu reolaeth o'r achos o un gweithiwr achos i un arall, ar ôl cymeradwyo cynllun gofal a chymorth presennol y plentyn. Felly, dylid cofnodi pob tro y newidiodd y gweithiwr achos, ac eithrio'r rhai a gofnodwyd mewn camgymeriad.

Os bydd y gweithiwr achos yn newid dros dro, e.e. yn ystod cyfnod o salwch, cofnodwch hyn fel dau newid. Newid un fydd i'r gweithiwr achos newydd dros dro, a newid dau yw'r newid yn ôl i'r gweithiwr achos blaenorol.

Dylid darparu data fel rhif cyfan.

## Troseddu ieuenctid

Ar gyfer plant 10 oed neu hŷn ar 31 Mawrth 2025:

Rhowch 1 os oedd gan y plentyn gynllun ar waith neu'n cael ei ddatblygu gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar 31 Mawrth 2025.
Rhowch 0 os nad oedd gan y plentyn gynllun ar waith neu'n cael ei ddatblygu gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar 31 Mawrth.
Rhowch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth.
Rhowch 88 os nad oes gwybodaeth ar gael.

Bydd angen yr wybodaeth hon ar gyfer Protocol Cymru Gyfan – lleihau nifer y plant a'r oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli. Mae'r Protocol yn cael ei gyhoeddi ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Pan fo plentyn yn byw yn yr ystad ddiogeledd, yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod lleol sy'n diwallu eu hanghenion, gan ddarparu llety iddynt, neu lle'r oedd y plentyn fel arfer yn byw cyn mynd i mewn i'r ystad ddiogeledd.

## Y gallu i rianta

Mae'r eitem hon yn casglu data am riant/rhieni y plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth a allai effeithio ar ofal y plentyn.

Ar gyfer pob un o'r categorïau:
Rhowch 1 os oedd y mater rhianta yn bresennol ar 31 Mawrth 2025.
Rhowch 0 os nad oedd y mater rhianta yn bresennol ar 31 Mawrth 2025.
Rhowch 88 os nad oes gwybodaeth ar gael.

Efallai bod sawl ffactor wedi bod yn bresennol, ac os felly gellir nodi mwy nag un categori, fel y bo'n briodol.

### Rhieni yn camddefnyddio sylweddau/alcohol

Cyfrwch yn wir os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu ofalwyr broblem camddefnyddio sylweddau.

Gweler yr adran Plant sy'n Derbyn Gofal yn unig - camddefnyddio sylweddau isod i gael diffiniad o gamddefnyddio sylweddau.

### Rhieni ag anableddau dysgu

Cyfrwch yn wir os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu ofalwyr amhariad ar swyddogaeth ddeallusol sy'n effeithio'n sylweddol ar eu datblygiad ac yn arwain at anawsterau o ran deall a defnyddio gwybodaeth, dysgu sgiliau newydd, a llwyddo i fyw yn annibynnol.

### Rhieni â salwch meddwl

Cyfrwch yn wir os oes gan un neu fwy o'r rhieni neu ofalwyr broblem iechyd meddwl. Dylid cynnwys problemau iechyd meddwl y cafwyd diagnosis ohonynt gan ymarferydd meddygol; problemau sydd wedi'u hadrodd gan yr unigolyn; a rhieni sy'n cael gwasanaethau gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Mae'n cynnwys iselder; hunan-niweidio; ac anhwylderau bwyta. Nid

yw’n cynnwys camddefnyddio sylweddau, ac anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig ac anableddau dysgu eraill.

**Rhieni â salwch corfforol**

Cyfrwch yn wir os oes gan un neu fwy o rieni neu ofalwyr y plentyn broblemau iechyd corfforol sy'n amharu ar eu gallu i ofalu am y plentyn hwnnw.

**Cam-driniaeth Domestig**

Cyfrwch yn wir os oes gan un neu fwy o rieni neu ofalwyr y plentyn broblemau cam-drin domestig. Mae cam-drin domestig yn cynnwys bygythiadau, trais neu fygythiadau o drais corfforol, rhywiol, seicolegol, neu ariannol, sy'n digwydd o fewn perthynas agos neu berthynas teuluol ac sy'n ffurfio patrwm o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol. Gall hyn gynnwys priodas dan orfod a ‘throseddau anrhydedd’ fel y'u gelwir.

## Plant sy’n Derbyn Gofal yn unig

Mae'r eitemau canlynol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar **31 Mawrth 2025**. Dylai'r plant hyn gael eu cynnwys yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, a dylai Rhif Adnabod yr Awdurdod Lleol alluogi croeswirio data o'r ffurflen hon yn erbyn yr ymatebion a roddwyd yn y Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal.

### Plant sy’n Derbyn Gofal yn unig - Gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd plant

Ar gyfer plant 5 oed neu iau ar 31 Mawrth 2025:

Rhowch 1 os oedd gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd neu wiriadau hybu iechyd y plentyn yn gyfredol ar 31 Mawrth.
Rhowch 0 os nad oedd gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd neu wiriadau hybu iechyd y plentyn yn gyfredol ar 31 Mawrth.
Rhowch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth. Rhowch 88 os nad oes gwybodaeth ar gael.

Cyfrwch achosion fel rhai cyfredol os yw’r plentyn wedi methu archwiliadau iechyd cynharach, ar yr amod eu bod wedi derbyn eu gwiriadau diweddarach. Mae'r gwiriadau iechyd hyn yn dod o dan y Rhaglen Gwyliadwriaeth Iechyd Plant. Ystyrir fod gwiriadau iechyd y plentyn yn gyfredol os ydynt wedi digwydd erbyn 31 Mawrth, hyd yn oed os oedden nhw wedi digwydd yn hwyrach nag y dylent. Os yw plentyn wedi methu ei holl wiriadau iechyd blaenorol ac eithrio'r rhai mwyaf diweddar, dylid nodi eu bod yn gyfredol.

### Plant sy’n Derbyn Gofal yn unig - Imiwneiddio

Rhowch 1 os oedd brechiadau'r plentyn yn gyfredol ar 31 Mawrth.
Rhowch 0 os nad oedd brechiadau'r plentyn yn gyfredol ar 31 Mawrth.
Rhowch 88 os nad oes gwybodaeth ar gael.

At ddibenion y Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth mae ‘cyfredol’ yn golygu bod y plentyn wedi cael pob imiwneiddiad y dylai plentyn o'i oedran fod wedi’u cael erbyn 31 Mawrth, yn ôl yr wybodaeth bresennol am Imiwneiddio Rheolaidd i Blant ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ar gyfer y cwestiwn hwn, nid yw’n ofynnol bod y plentyn wedi derbyn y brechiadau ar yr union oedrannau a nodir yn y tabl, dim ond eu bod yn gyfredol erbyn 31 Mawrth 2024, hyd yn oed os oedden nhw’n hwyr yn ôl yr amserlen imiwneiddio.

Mewn achosion lle nad yw plant wedi cael eu brechiadau oherwydd bod y rhieni wedi eu gwrthod, am resymau iechyd, neu oherwydd bod y person ifanc yn gwrthod, dylid cyfrif nad ydynt yn gyfredol.

Mae asesu a yw brechiadau unigolyn yn gyfredol yn benderfyniad clinigol yn bennaf ac nid ydym yn disgwyl i staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol, nad oes ganddynt o reidrwydd yr hyfforddiant clinigol perthnasol na mynediad at gofnodion meddygol y plentyn, wneud y

penderfyniad hwn ar eu pen eu hunain. At ddibenion y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth, mae’n ddigon cael barn gan feddyg neu nyrs y practis bod brechiadau’r person ifanc yn gyfredol.

### Plant sy’n Derbyn Gofal yn Unig - Gwiriadau deintyddol

Ar gyfer plant 5 oed a hŷn ar 31 Mawrth:

Rhowch 1 os oedd dannedd y plentyn wedi cael eu gwirio gan ddeintydd yn ystod y deuddeg mis hyd at 31 Mawrth.
Rhowch 0 os nad oedd dannedd y plentyn wedi cael eu gwirio gan ddeintydd yn ystod y deuddeg mis hyd at 31 Mawrth.
Rhowch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth. Rhowch 88 os nad yw’r wybodaeth ar gael.

Disgwylir i bob plentyn sy'n derbyn gofal gael gwirio eu dannedd. Dylai plant ifanc iawn gael archwiliad o’u ceg hyd yn oed os nad yw eu dannedd wedi datblygu eto. Gyda phlant ifanc iawn, nid oes rhaid i'r archwiliad gael ei gynnal gan ddeintydd ac fe ellir cyfrif archwiliad gan bediatregydd neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall a oedd yn cynnwys archwiliad o’r geg. Dylid trin plant a wrthododd gael gwirio eu dannedd fel rhai nad ydynt wedi cael gwiriad deintyddol.

### Plant sy’n Derbyn Gofal yn Unig - Camddefnyddio sylweddau

Ar gyfer plant 10 oed a hŷn ar 31 Mawrth 2025:

Rhowch 1 os oedd gan y plentyn broblem camddefnyddio sylweddau ar 31 Mawrth 2025.
Rhowch 0 os nad oedd gan y plentyn broblem camddefnyddio sylweddau ar 31 Mawrth.
Rhowch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth.
Rhowch 88 os nad oes gwybodaeth ar gael.

Mae’r canllawiau canlynol wedi’u hysgrifennu i helpu awdurdodau lleol i gasglu data mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.

Llywodraeth Cymru sy’n bennaf gyfrifol am y polisi ar atal camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.

Mae camddefnyddio sylweddau a phroblemau cysylltiedig yn niweidio lles plant a phobl ifanc, ac yn eu hatal rhag cyflawni eu llawn botensial.

Camddefnyddio sylweddau - beth sy’n cyfrif fel problem?

Mae adroddiad y Gwasanaeth Cynghori ar Iechyd (HAS) (1996) yn nodi ‘na ellir ystyried defnydd arbrofol neu untro o gyffuriau ac alcohol ynddo'i hun yn arwydd o fod wedi achosi niwed gwirioneddol neu o fod yn gysylltiedig ag unrhyw anhwylder personol’. Mewn geiriau eraill, ni ddylai'r ffaith bod person ifanc wedi cymryd sylwedd arwain at y casgliad awtomatig fod problem neu gyflwr i'w drin. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cydnabod y gallai unrhyw sylweddau sy'n cael eu cymryd gan bobl ifanc arwain at niwed posibl.

Mae canllawiau diweddar a gyhoeddwyd gan y National Institute for Clinical Excellence (NICE) yn cynnig y diffiniad canlynol o gamddefnyddio sylweddau fel 'meddwdod gan – neu ddefnydd gormodol rheolaidd a/neu ddibyniaeth ar – sylweddau seicoweithredol, gan arwain at broblemau cymdeithasol, seicolegol, corfforol, neu gyfreithiol'. Mae'n cynnwys defnydd problemus o gyffuriau cyfreithiol ac anghyfreithlon (gan gynnwys alcohol, neu gamddefnyddio meddyginiaeth presgripsiwn).

Cyffuriau, alcohol, a sylweddau

Yn y canllawiau hyn, defnyddir y term 'cyffur' i gyfeirio at unrhyw sylwedd seicotropig, gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon, y defnydd anghyfreithlon o gyffuriau presgripsiwn a sylweddau anwadal. Pan fydd pobl ifanc yn cymryd cyffuriau, bydd hynny'n aml iawn yn gysylltiedig ag yfed alcohol. Felly, mae'r term 'sylwedd' yn cyfeirio at gyffuriau ac alcohol ond nid tybaco.

### Plant sy'n Derbyn Gofal yn unig - Iechyd meddwl

Ar gyfer plant 10 oed a hŷn ar 31 Mawrth 2025:

Rhowch 1 os oedd gan y plentyn broblem iechyd meddwl gyfredol ar 31 Mawrth.
Rhowch 0 os nad oedd gan y plentyn broblem iechyd meddwl gyfredol ar 31 Mawrth.
Rhowch 80 os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i grŵp oedran y plentyn ar 31 Mawrth.
Rhowch 88 os nad oes gwybodaeth ar gael.

Peidiwch â chofnodi'r eitem hon yn wir ar gyfer y plant hynny a oedd â phroblem camddefnyddio sylweddau yn unig.

Dylid cynnwys problemau iechyd meddwl y rhoddwyd diagnosis ohonynt gan ymarferydd meddygol, a phlant sy'n derbyn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) neu sydd ar restr aros am wasanaethau. Dylid cynnwys iselder; hunan-niweidio; ac anhwylderau bwyta. Dylech gynnwys plant os ydyn nhw'n dweud bod ganddynt broblemau iechyd meddwl heb gael diagnosis. Ni ddylid cynnwys anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig ac anableddau dysgu eraill.

# Atodiad A – Rhestr o eitemau data

**Manylion craidd**
Cod awdurdod lleol
Rhif adnabod plentyn yr awdurdod lleol
Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN)
Dyddiad geni
Cod post cartref y plentyn
Rhywedd
Ethnigrwydd
Anabledd – Golwg
Anabledd – Clyw
Anabledd – Corfforol
Anabledd – Salwch meddwl
Anabledd – Dementia
Anabledd – Cyflwr niwroddatblygiadol
Anabledd – Arall
Anabledd – Dim
Cyflyrau niwroddatblygiadol - Cyflwr Sbectrwm Awtistig
Cyflyrau niwroddatblygiadol - Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
Cyflyrau niwroddatblygiadol - Syndrom Tourette
Cyflyrau niwroddatblygiadol - Anabledd dysgu
Cyflyrau niwroddatblygiadol - Arall
Cyflyrau niwroddatblygiadol - Dim
Iaith
Cynllun gofal a chymorth yn weithredol ar 31 Mawrth
Dyddiad dechrau'r cyfnod parhaus diweddaraf o ofal a chymorth
Rheswm dros roi gofal a chymorth
Dyddiad y daeth y cynllun gofal a chymorth i ben
Rheswm dros ddod â'r cynllun gofal a chymorth i ben
Statws ceisiwr lloches yn ystod y flwyddyn adrodd
Dyddiad ychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant
Dyddiad y tynnwyd y plentyn oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
Ar goll
**Manylion gofal a chymorth**
Plentyn sy'n derbyn gofal
Cyfrifoldebau gofalu
Statws ceisiwr lloches ar 31 Mawrth
Cofrestr Amddiffyn Plant
Cofrestr Amddiffyn Plant - Esgeulustod
Cofrestr Amddiffyn Plant – Camdriniaeth corfforol
Cofrestr Amddiffyn Plant – Camdriniaeth rhywiol
Cofrestr Amddiffyn Plant - Camdriniaeth ariannol
Cofrestr amddiffyn plant - Camdriniaeth emosiynol/seicolegol (yn unig)
Newidiadau i weithwyr dynodedig/gweithiwr achos
Troseddu ieuenctid
Y gallu i rianta - Rhieni yn camddefnyddio sylweddau/alcohol
Y gallu i rianta - Rhieni ag anableddau dysgu
Y gallu i rianta - Rhieni â salwch meddwl
Y gallu i rianta - Rhieni â salwch corfforol
Y gallu i rianta - Camdriniaeth ddomestig
**Plant sy'n Derbyn Gofal yn unig**
Gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd plant
Imiwneiddio
Gwiriadau deintyddol
Camddefnyddio sylweddau
Iechyd meddwl

# Atodiad B – Cod Iaith

| | |
|---|---|
| **ENG** | Saesneg |
| **CYM** | Cymraeg |
| | |
| **ACL** | Acholi |
| **ADA** | Adangme |
| **AFA** | Afar-Saho |
| **AFK** | Afrikaans |
| **AKA** | Akan/Twi-Fante |
| **ALB** | Albaneg/Shqip |
| **ALU** | Alur |
| **AMR** | Amhareg |
| **ARA** | Arabeg |
| **ARM** | Armeneg |
| **ASM** | Asameg |
| **ASR** | Asyrieg/Aramaeg |
| **AYB** | Anyi-Baule |
| **AYM** | Aymara |
| **AZE** | Azeri |
| **BAI** | Bamileke (Unrhyw un) |
| **BAL** | Balwtsi |
| **BEJ** | Bejäeg/Bedawi |
| **BEL** | Belarwseg |
| **BEM** | Bemba |
| **BHO** | Bhojpuri |
| **BIK** | Bikol |
| **BIS** | Bislama |
| **BLT** | Balti Tibetan |
| **BMA** | Byrmaneg/Myanma |
| **BNG** | Bengaleg |
| **BSL** | Iaith Arwyddion Prydain |
| **BSQ** | Basgeg/Euskara |
| **BUL** | Bwlgareg |
| **CAM** | Cambodian/Khmer |
| **CAT** | Catalan |
| **CCE** | Saesneg Creol Caribïaidd |
| **CF** | Ffrangeg Creol Caribïaidd |
| **CGA** | Chaga |
| **CGR** | Chattisgarhi/Khatahi |
| **CHE** | Chechen |
| **CHI** | Tsieinëeg |
| **CKW** | Chokwe |
| **CRN** | Cernyweg |
| **CTR** | Chitrali/Khowar |
| **CWA** | Chichewa/Nyanja |
| **CZE** | Tsieceg |
| **DAN** | Daneg |
| **DGA** | Dagaare |
| **DGB** | Dagbane |
| **DIN** | Dinka/Jieng |
| **DUT** | Iseldireg/Fflemineg |
| **DZO** | Dzongkha/Bhutanese |
| **EBI** | Ebira |
| **EDO** | Edo/Bini |
| **EFI** | Efik-Ibibio |

| | |
|---|---|
| **ESA** | Esan/Ishan |
| **EST** | Estoneg |
| **EWE** | Ewe |
| **EWO** | Ewondo |
| **FAN** | Fang |
| **FIJ** | Ffijïeg |
| **FIN** | Ffinneg |
| **FON** | Fon |
| **FRN** | Ffrangeg |
| **FUL** | Fula/Fulfulde-Pulaar |
| **GAA** | Ga |
| **GAE** | Gaeleg/Gwyddeleg |
| **GAL** | Gaeleg (yr Alban) |
| **GEO** | Georgeg |
| **GER** | Almaeneg |
| **GGO** | Gogo/Chigogo |
| **GKY** | Kikuyu/Gikuyu |
| **GLG** | Galician/Galego |
| **GRE** | Groegeg |
| **GRN** | Guarani |
| **GUJ** | Gujarati |
| **GUN** | Gurenne/Frafra |
| **GUR** | Gurma |
| **HDK** | Hindko |
| **HEB** | Hebraeg |
| **HER** | Herero |
| **HGR** | Hwngareg |
| **HIN** | Hindi |
| **IBA** | Iban |
| **IDM** | Idoma |
| **IGA** | Igala |
| **IGB** | Igbo |
| **IJO** | Ijo (Unrhyw un) |
| **ILO** | Ilokano |
| **ISK** | Itsekiri |
| **ISL** | Islandeg |
| **ITA** | Eidaleg |
| **JAV** | Jafaneg |
| **JIN** | Jinghpaw/Kachin |
| **JPN** | Japaneeg |
| **KAM** | Kikamba |
| **KAN** | Kannada |
| **KAR** | Karen (Unrhyw un) |
| **KAS** | Kashmiri |
| **KAU** | Kanuri |
| **KAZ** | Kazakh |
| **KCH** | Katchi |
| **KGZ** | Kirghiz/Kyrgyz |
| **KHA** | Khasi |
| **KHY** | Kihaya/Luziba |
| **KIN** | Kinyarwanda |
| **KIR** | Kirundi |
| **KIS** | Kisi (Gorllewin Affrica) |
| **KLN** | Kalenjin |
| **KMB** | Kimbundu |
| **KME** | Kimeru |
| **KNK** | Konkani |

| | |
|---|---|
| **KNY** | Kinyakyusa-Ngonde |
| **KON** | Kikongo |
| **KOR** | Corëeg |
| **KPE** | Kpelle |
| **KRI** | Krio |
| **KRU** | Kru (Unrhyw un) |
| **KSI** | Kisii/Ekegusii (Kenya) |
| **KSU** | Kisukuma |
| **KUR** | Cwrdeg |
| **LAO** | Laoseg |
| **LBA** | Luba |
| **LGA** | Luganda |
| **LGB** | Lugbara |
| **LGS** | Lugisu/Lumasaba |
| **LIN** | Lingala |
| **LIT** | Lithwaneg |
| **LNG** | Lango (Uganda) |
| **LOZ** | Lozi/Silozi |
| **LSO** | Lusoga |
| **LTV** | Latfieg |
| **LTZ** | Lwcsembwrgeg |
| **LUE** | Luvale/Luena |
| **LUN** | Lunda |
| **LUO** | Luo (Kenya/Tanzania) |
| **LUY** | Luhya (Unrhyw un) |
| **MAG** | Magahi |
| **MAI** | Maithili |
| **MAK** | Makua |
| **MAN** | Manding/Mandekan |
| **MAO** | Maori |
| **MAR** | Marathi |
| **MAS** | Maasai |
| **MDV** | Maldivian/Dhivehi |
| **MEN** | Mende |
| **MKD** | Macedonian |
| **MLG** | Malagasy |
| **MLM** | Malayalam |
| **MLT** | Malti |
| **MLY** | Maleieg/Indoneseg |
| **MNA** | Magindanao-Maranao |
| **MNG** | Mongoleg (Khalkha) |
| **MNX** | Gaeleg Ynys Manaw |
| **MOR** | Moore/Mossi |
| **MSC** | Mawriseg/Creol y Seychelles |
| **MUN** | Munda (Unrhyw un) |
| **MYA** | Maya (Unrhyw un) |
| **NAH** | Nahuatl/Mecsicaneg |
| **NAM** | Nama/Damara |
| **NBN** | Nubian (Unrhyw un) |
| **NDB** | Ndebele |
| **NEP** | Nepali |
| **NOR** | Norwyeg |
| **NUE** | Nuer/Naadh |
| **NUP** | Nupe |
| **NWA** | Newari |
| **NZM** | Nzema |
| **OAM** | Ambo/Oshiwambo |

| | |
|---|---|
| **OGN** | Ogoni (Unrhyw un) |
| **ORI** | Oriya |
| **ORM** | Oromo |
| **OTL** | Iaith arall / Anhysbys / Methu cyfathrebu |
| **PAG** | Pangasinan |
| **PAM** | Pampangan |
| **PAT** | Pashto/Pakhto |
| **PHA** | Pahari/Himachali (India) |
| **PHR** | Pahari (Pakistan) |
| **PNJ** | Panjabi |
| **POL** | Pwyleg |
| **POR** | Portiwgaleg |
| **PRS** | Persian/Farsi |
| **QUE** | Quechua |
| **RAJ** | Rajasthani/Marwari |
| **RME** | Romani/Romani Saesneg |
| **RMI** | Romani (Rhyngwladol) |
| **RMN** | Rwmaneg |
| **RMS** | Romansch |
| **RNY** | Runyakitara |
| **RUS** | Rwseg |
| **SAM** | Samöeg |
| **SCB** | Serbeg/Croateg/Bosnian |
| **SCO** | Sgoteg |
| **SHL** | Shilluk/Cholo |
| **HO** | Shona |
| **SID** | Sidamo |
| **SIO** | Iaith Arwyddion (Arall) |
| **SLO** | Slofaceg |
| **SLV** | Slofeneg |
| **SND** | Sindhi |
| **SNG** | Sango |
| **SNH** | Sinhala |
| **SOM** | Somalieg |
| **SPA** | Sbaeneg |
| **SRD** | Sardeg |
| **SRK** | Siraiki |
| **SSO** | Sotho/Sesotho |
| **SSW** | Swazi/Siswati |
| **STS** | Tswana/Setswana |
| **SWA** | Swahili/Kiswahili |
| **SWE** | Swedeg |
| **TAM** | Tamil |
| **TEL** | Telugu |
| **TEM** | Temne |
| **TES** | Teso/Ateso |
| **TGE** | Tigre |
| **TGL** | Tagalog/Filipino |
| **TGR** | Tigrinya |
| **THA** | Thai |
| **TIB** | Tibeteg |
| **TIV** | Tiv |
| **TMZ** | Berber/Tamazight |
| **TNG** | Tonga/Chitonga (Zambia) |
| **TON** | Tongeg (Ynysoedd y De) |
| **TPI** | Tok Pisin |
| **TRI** | Gwyddeleg Teithwyr/Sielta |

| | |
|---|---|
| **TSO** | Tsonga |
| **TUK** | Tyrcmeneg |
| **TUL** | Tulu |
| **TUM** | Tumbuka |
| **TUR** | Tyrceg |
| **UKR** | Wcreineg |
| **UMB** | Umbundu |
| **URD** | Wrdw |
| **URH** | Urhobo-Isoko |
| **UYG** | Uyghur |
| **UZB** | Wsbeceg |
| **VEN** | Venda |
| **VIE** | Fietnameg |
| **VSY** | Visayan/Bisaya |
| **WAP** | Wa-Paraok (De-ddwyrain Asia) |
| **WCP** | Portiwgaleg Creol Gorllewin Affrica |
| **WOL** | Wolof |
| **WPE** | Saesneg fratiog Gorllewin Affrica |
| **XHO** | Xhosa |
| **YAO** | Yao/Chiyao (Dwyrain Affrica) |
| **YDI** | Iddew-Almaeneg |
| **YOR** | Yoruba |
| **ZND** | Zande |
| **ZUL** | Zwlŵeg |
| **ZZX** | Wedi gwrthod datgelu’r wybodaeth |